



Annwyl Gwsmeriaid

**Swyddfa'r Post® Cefn Glas®
52 Llangewydd Road, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4JR**

Penderfyniad Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

Rwyf yn ysgrifennu i gadarnhau y byddwn yn gweithredu ein cynigiad i symud y gangen uchod o Swyddfa'r Post i siop Spar, 44 – 48 Llangewydd Road, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4JR, lle y bydd yn gweithredu fel un o'n canghennau Swyddfa'r Post yn y dull lleol newydd.

Derbynion ni 7 o ymatebion unigol oddi wrth gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd rhai'n cefnogi'r cynigiad gan y bydd yn ein galluogi i gynnig oriau agor hirach ond mynegwyd pryderon ynghylch mannau parcio a gofod yn yr adeilad arfaethedig a'r ffaith na fydd gweithrediadau a seilir ar bapur, fel biliau papur a thalu gyda siec, ar gael mwyach. Bu'r adborth hwn yn help i mi ddeall pryderon cwsmeriaid ac ystyriwyd y cyfan cyn i ni gwblhau ein cynlluniau.

Rydym yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cangen Swyddfa'r Post ym mywydau cwsmeriaid, yn enwedig yr henoed a'r anabl, a'n nod yw gwneud hynny a fedrwn i wneud gwasanaethau Swyddfa'r Post mor hawdd i'w cyrraedd ag sy'n bosibl. Medraf gadarnhau y bydd ein gweithredwr newydd yn gwneud newidiadau i'r gangen cyn iddi agor i'w gwneud hi'n haws i gwsmeriaid fynd i'r gangen. Bydd gan yr adeilad newydd ddrws awtomatig a ramp er mwyn ei gwneud hi'n haws mynd i mewn ac allan.

Bydd y gangen newydd yn cael ei chynllunio'n unol â manyleb Swyddfa'r Post gan sicrhau bod digon o le i'r Swyddfa Post yn y dull lleol newydd weithredu ochr yn ochr â'r cynigiad manwerthu. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r gweithredwr newydd ar y cynllun mewnol i ofalu bod digon o le i gwsmeriaid a bod lefel briodol o breifatrwydd wrth safle gwasanaethu Swyddfa'r Post, a fydd yn un cynllun-agored ac a leolir wrth gownter y siop. Er bod y fformat lleol yn ffordd fwy modern o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post, nid yw'n amharu ar y safonau gwasanaeth proffesiynol y ceisiwn eu darparu ym mhob un o'n canghennau.

Cynlluniwyd y fformat lleol i drin prosesau syml ar gyfer trin gweithrediadau a fydd mor syml a chyflym ag sy'n bosibl. Mae hyn yn lleiafu ciwio ac yn cynnig gwasanaeth effeithlon a chyflym. Ar ôl symud y gangen mae'n dda gennyf gadarnhau y bydd cwsmeriaid yn medru dyddodi sieciau banc mewn amlen i'r banciau sy'n bartneriaid i ni. Fodd bynnag, mae nifer fechan o weithrediadau sy'n cymryd mwy o amser, sy'n fwy cymhleth neu a seilir ar bapur na fyddant ar gael yn y gangen newydd. Medraf gadarnhau y bydd y gwasanaethau hyn yn dal i fod ar gael yn Swyddfa'r Post Bryntirion (ceir manylion llawn y gangen hon ar y daflen wybodaeth amgaeedig).

Er fy mod yn cydnabod y pryderon ynghylch parcio yn yr ardal o gwmpas y lleoliad newydd, mae'n deg dweud bod hon yn problem a wynebwr ledled y wlad. Rwyf yn sicr y byddwch yn deall bod argaeledd mannau parcio yn fater nad oes gan Swyddfa'r Post reolaeth uniongyrchol drosto. Serch hynny rwyf wedi cynnal arolwg bellach o'r sefyllfa parcio a medraf gadarnhau bod lle i barcio ar ochr y ffordd yn ymyl y lleoliad newydd. Rwyf yn fodlon felly y bydd parcio yn y lleoliad newydd yn cwrdd ag anghenion Swyddfa'r Post.

Rwyf wedi ystyried fy nghynigiad gwreiddiol yn ofalus a'r adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Rwyf yn hyderus y bydd y gangen newydd mewn lleoliad addas ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn bodloni anghenion cwsmeriaid tra'n helpu i gynnig cynaliadwydd i'r gangen yn y dyfodol.

Er mwyn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post cyn gynted ag sy'n bosibl, bydd y gangen newydd yn agor yn siop Spar 44 – 48 Llangewydd Road, am 13:00 ar ddydd Mercher 11 Ebrill 2018. Yn unol â'n Cod Ymarfer anelwn at roi pedair wythnos o rybudd am y math hwn o newid ac ymddiheurwn na wnaethom hynny yn yr achos hwn. Os bydd unrhyw newid i'r amserlen nas rhagwelwyd a bod angen newid y dyddiadau hyn, dangosir posteri yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid.

Medrwcw weld copi o'r llythyr hwn hefyd ar ein gwefan postofficeviews.co.uk. Pan ewch i'r wefan medrwcw ddefnyddio'r cyfleuster chwilio i ddod o hyd i'r llythyr hwn drwy roi enw'r gangen, y cod post neu god unigryw'r gangen sef 316611.

Cyflawnir y newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith fel a gytunwyd gyda'r corff gwarchod defnyddwyr statudol annibynnol. Mae copi llawn o'r Cod Ymarfer ar ein gwefan yn www.postofficeviews.co.uk, neu drwy gysylltu â ni yn y cyfeiriad a roddir ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch am ystyried ein cynigiad.

Yn gywir



Suzanne Richardson
Rheolwr Rhwydwaith Rhanbarthol

Sut i gysylltu â ni:

-  postofficeviews.co.uk
-  comments@postoffice.co.uk
-  Llinell Gymorth I Gwsmeriaid:
03457 22 33 44
Ffôn Testun: 03457 22 33 55
-  FREEPOST Your Comments
Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun terfynol ar-lein. I'w weld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.



I gael y wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, mewn print bras, sain neu braille cysylltwch â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 03457 22 33 55.

Taflen wybodaeth Swyddfa'r Post Cefn Glas															
Cyfeiriad	Siop Spar 44 – 48 Llangewydd Road Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4JR														
Oriau agor	<table><tr><td>Llun</td><td>07:00 – 23:00</td></tr><tr><td>Mawrth</td><td>07:00 – 23:00</td></tr><tr><td>Mercher</td><td>07:00 – 23:00</td></tr><tr><td>Iau</td><td>07:00 – 23:00</td></tr><tr><td>Gwener</td><td>07:00 – 23:00</td></tr><tr><td>Sadwrn</td><td>07:00 – 23:00</td></tr><tr><td>Sul</td><td>08:00 – 22:30</td></tr></table>	Llun	07:00 – 23:00	Mawrth	07:00 – 23:00	Mercher	07:00 – 23:00	Iau	07:00 – 23:00	Gwener	07:00 – 23:00	Sadwrn	07:00 – 23:00	Sul	08:00 – 22:30
Llun	07:00 – 23:00														
Mawrth	07:00 – 23:00														
Mercher	07:00 – 23:00														
Iau	07:00 – 23:00														
Gwener	07:00 – 23:00														
Sadwrn	07:00 – 23:00														
Sul	08:00 – 22:30														
Pellter	Drws nesaf i'r gangen bresennol.														
Cynhyrchion & Gwasanaethau	Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post yn dal i fod ar gael.														
Mynediad a gwaith mynediad	Mynediad a chyfleusterau Bydd gan yr adeilad newydd ddrws llydan. Tu mewn, bydd dolen glyw a gofod ar gyfer cadair olwyn. Parcio Mae lle i barcio oddi ar y ffordd y tu allan i'r adeilad.														
Manwerthu	Storfa gyffredinol														
Dyddiad adleoli	Mercher 11 Ebrill 2018 am13:00														

Gwasanaethau Swyddfa'r Post® ar gael yng nghangen Cefn Glas		
Bydd eich isbostfeistr / gweithredwr neu ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 yn falch o'ch helpu gydag unrhyw gwestiwn am argaeledd cynhyrchion neu i ddarparu manylion i chi am werth uchaf gweithrediadau. Gall cwsmeriaid hefyd siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk		
Post		Cangen newydd
Post Dosbarth Cyntaf ac Ail		✓
Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1 ^{af} 6 & 12 yn unig, 2 ^{il} Ddosbarth 12 yn unig)		✓
Stampiau arbennig (cyhoeddiad y Nadolig yn unig) & labeli postio		✓
Signed For		✓
Special Delivery		✓
Dychweliadau siopa gartref		✓
Parseli bach, canolig a mawr		✓
Parseli brys & contract		Express 24 & 48
Post Lluoedd Prydeinig (BFPO)		✓
Llythyrau & cardiau post rhyngwladol (gan gynnwys Signed For & Airsure)		✓
Parseli rhyngwladol hyd at 2kg & papurau printiedig hyd at 5kg		✓
Parseli rhyngwladol Parcelforce Worldwide		x
Eitemau i'r deillion (mewnol & rhyngwladol)		✓
Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol		✓
Local Collect		✓
Drop & Go		✓
Codi arian, adneuron a thaliadau		
Cerdyn Cyfrif Swyddfa'r Post		✓
Codi arian o gyfrifon banc personol a busnes, adneuron, ymholiadau balans & adneuron siec mewn amlen gan ddefnyddio cerdyn. Hefyd slipiau adneuron gyda chod bar		✓
Archebion post		✓
Moneygram		✓
Rhoi newid		✓
Talu biliau		
Talu biliau awtomatig (cerdyn neu gyda chod bar)		✓
Adlenwi allweddi		✓
Talu biliau		
Talu biliau awtomatig (cerdyn neu gyda chod bar)		✓
Adlenwi allweddi		✓
Talu biliau		
Talu biliau awtomatig (cerdyn neu gyda chod bar)		✓
Adlenwi allweddi		✓
Adlenwadau Ffonau Symudol & E-fowtsieri		✓
Talu gyda siec		x
Bydd y cynhyrchion gyda x ar gael yn Swyddfa'r Post Bryntirion , Bryngolau Road, Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4DD		Oriau agor: Llun – Gwe 09:00 – 17:30 Sad 09:00 – 12:30